WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Wybodaeth Rheoli Perfformiad – **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1310A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Y sawl a gyflawnodd y gwaith oedd David Poland.

# Cynnwys

Mae gwybodaeth rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwaith craffu gan y Bwrdd a'i bwyllgorau, er bod rhywfaint o gyfle ar gyfer gwelliant pellach.


Adroddiad cryno

Cefndir 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Mae gwybodaeth rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwaith craffu gan y Bwrdd a'i bwyllgorau, er bod rhywfaint o gyfle ar gyfer gwelliant pellach 7

Mae'r drefn adrodd ar berfformiad yn dal i ddatblygu gyda rhai gwelliannau ers hydref 2018; fodd bynnag, mae cyfle ar gyfer gwelliant pellach 7

Mae trefniadau newydd ar gyfer adroddiadau a chyfarfodydd yn darparu gwybodaeth briodol ar gyfer y Bwrdd a'i bwyllgorau ac yn rhoi mwy o amser iddynt graffu ar berfformiad 15

Atodiadau

Atodiad 1 – argymhellion archwilio: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru: Adolygiad o Wybodaeth Rheoli Perfformiad 19

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 Mae rheoli gwybodaeth yn effeithiol yn bwysig er mwyn i gyrff iechyd gyflawni deilliannau iechyd gwell, darparu gwasanaethau gwell a rhoi mwy o werth am arian. Mae angen i fyrddau cyrff y GIG ganolbwyntio'u hymdrechion a gwneud penderfyniadau da. Er mwyn gwneud hyn mae arnynt angen gwybodaeth gadarn am berfformiad y sefydliad a dehongliad craff ohono.

2 Fe gymeradwyodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ei Fframwaith Rheoli Perfformiad yn 2016. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati'n rheolaidd i adrodd wrth ei Bwrdd a phwyllgorau ar ei pherfformiad o ran darparu gwasanaethau a'i pherfformiad sefydliadol, a'i pherfformiad yn erbyn yr amcanion a nodir yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI).

3 Yn ystod ein Hasesiad Strwythuredig yn 2018 fe wnaethom adnabod rhai pryderon ynghylch yr wybodaeth rheoli perfformiad y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n ei chael. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- nifer y mesurau perfformiad;
- maint yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol (AAPhIM)
- y gallu i adnabod tueddiadau allweddol dros amser;
- y diffyg adrodd drwy eithriad ar gyfer camau yn y CTCI; a hefyd
- yr anhawster o ran gwahaniaethu rhwng yr uchelgeisiau ar gyfer perfformiad a nodir yn y CTCI o fewn yr AAPhIM.

4 Fe wnaethom nodi hefyd wrth arsylwi ar gyfarfodydd pwyllgorau a'r Bwrdd yn y gorffennol mai dim ond amser cyfyngedig yr oedd aelodau'n ei gael weithiau i drafod adroddiadau am berfformiad (yr AAPhIM a'r CTCI). Mewn ymateb i bryderon a amlygwyd yn ystod ein Hasesiad Strwythuredig fe benderfynom ni wneud gwaith pellach yn y maes hwn.

5 Ers adeg ein gwaith maes ar gyfer ein Hasesiad Strwythuredig yn 2018, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno rhai newidiadau i gynnwys a fformat ei AAPhIM. Mae trefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad wedi newid ers hydref 2018 hefyd. Mae cyfarfodydd y Bwrdd bellach yn hwy ac yn fwy mynych, ac mae Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau'r Ymddiriedolaeth wedi cael ei ddiddymu gyda dau bwyllgor newydd yn ei le.

6 Fe gynhaliom ni adolygiad blaenorol o effeithiolrwydd trefniadau Byrddau'r GIG ar gyfer adrodd ar berfformiad yn dilyn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2015. Fe gyhoeddom ni ddadansoddiad cymharol lefel-uchel o'r holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth ym mis Mehefin 2016. Mae'r adolygiad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed ers 2016 ac yn cynnig mewnwelediad ynglŷn â ffyrdd y gallai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ansawdd ac eglurder gwybodaeth rheoli perfformiad yr adroddir wrth ei Bwrdd a phwyllgorau arni.

7 Fe ganolbwyntiodd ein gwaith ar wybodaeth rheoli perfformiad, yn benodol yr adroddiadau AAPhIM a CTCI y mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'i bwyllgorau allweddol yn eu cael. Fe wnaethom adolygu'r papurau ar y CTCI a Pherfformiad (AAPhIM) a gyflwynwyd i'r Bwrdd rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Mawrth 2019. Roedd cwmpas ein gwaith yn gyfyngedig i'r meysydd hyn ac nid oedd yn cynnwys adolygiad o wybodaeth weithredol a gyflwynwyd i'r Tîm Rheoli Gweithredol, Grŵp Sicrhau Cyflawni'r CTCI (GSCC), y Bwrdd Trawsnewid Strategol na'r wybodaeth a gyflwynir yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Cynhaliwyd ein hadolygiad rhwng mis Mawrth a mis Mai 2019.

8 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn canlynol: **A yw gwybodaeth rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwaith craffu gan y Bwrdd a'i bwyllgorau?** I ateb y cwestiwn hwn, fe wnaethom ystyried y canlynol mewn perthynas â gwybodaeth rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth:

- a yw'n cael ei chyflwyno'n eglur mewn adroddiadau i'r Bwrdd a'i bwyllgorau; ac
- a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n craffu'n effeithiol arni.

# Canfyddiadau allweddol

9 Ein canfyddiad ar y cyfan yw: **Mae gwybodaeth rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwaith craffu gan y Bwrdd a'i bwyllgorau, er bod rhywfaint o gyfle ar gyfer gwelliant pellach**.

10 Mae Arddangosyn 1 yn nodi ein canfyddiadau allweddol mewn mwy o fanylder.

Arddangosyn 1: ein prif ganfyddiadau

| Ein prif ganfyddiadau |
| --- |
| **Mae'r drefn adrodd ar berfformiad yn dal i ddatblygu gyda rhai gwelliannau ers hydref 2018; fodd bynnag, mae cyfle ar gyfer gwelliant pellach** |
| • Mae Adroddiad Perfformiad Integredig Misol diwygiedig yr Ymddiriedolaeth wedi gwella'i threfn adrodd ar berfformiad.<br>• Mae adroddiadau allweddol yr Ymddiriedolaeth ar berfformiad bellach wedi'u hintegreiddio'n well, er bod cyfle o hyd i gryfhau'r cysylltiadau rhyngddynt.<br>• Mae adroddiad newydd yr Ymddiriedolaeth ar berfformiad bellach yn cynnwys dangosfyrddau a chardiau sgorio manwl sy'n cynnwys data amserol.<br>• Gellid gwella'r modd yr eir ati i ddadansoddi tueddiadau, a gallai adroddiadau roi dealltwriaeth well am yr hyn sydd wedi dylanwadu ar berfformiad.<br>• Nid yw cynlluniau gweithredu ar gyfer adfer yn nodi uwch reolwr cyfrifol ac amserlen glir ar gyfer gwella.<br>• Oherwydd diffyg data cymaradwy, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn meincnodi ei pherfformiad yn rheolaidd. |

| Ein prif ganfyddiadau |
| --- |
| **Mae trefniadau newydd ar gyfer adroddiadau a chyfarfodydd yn darparu gwybodaeth briodol ar gyfer y Bwrdd a'i bwyllgorau ac yn rhoi mwy o amser iddynt graffu ar berfformiad**<br>• Mae newidiadau diweddar i amlder cyfarfodydd y Bwrdd ac i'r strwythur pwyllgorau wedi darparu mwy o amser i graffu ar wybodaeth am berfformiad a'i herio.<br>• Ceir tystiolaeth o graffu cadarn ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau; fodd bynnag, mae cyfle i gynyddu'r effaith y mae craffu'n ei chael ar berfformiad.<br>• Mae gwelliannau i fformat adroddiadau ar berfformiad yn debygol o gryfhau gwaith craffu gan aelodau'r Bwrdd, er y dylai'r Ymddiriedolaeth geisio gwerthuso effaith newidiadau diweddar. |

# Argymhellion

11 Caiff argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad eu nodi yn Arddangosyn 2. Bydd ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion hyn yn cael ei grynhoi yn Atodiad 1 unwaith y bydd wedi cael ei ystyried gan y pwyllgor perthnasol.

Arddangosyn 2: argymhellion

| Argymhellion | |
| --- | --- |
| A1 | Mynd ati ymhellach i gryfhau eglurder a gwerth Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol (AAPhIM) yr Ymddiriedolaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried:<br>• lle y bo'n bosibl, darparu disgrifiad o'r materion sy'n effeithio ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth;<br>• cynnwys rhagolygon mewn adroddiadau perfformiad i ragfynegi perfformiad a deilliannau yn y dyfodol; ac<br>• enwi uwch reolwr/rheolwr arweiniol â chyfrifoldeb am y '10 uchaf' o blith y targedau, ac o bosibl ar draws pob dangosydd perfformiad. |
| A2 | Datblygu adroddiad cryno byr ar drafodion y pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar gyfer y Bwrdd a hwnnw'n amlygu, drwy eithriad, y materion/risgiau allweddol lle mae perfformiad a chyflawni yn y cwestiwn. |
| A3 | Datblygu dull i fynd ati'n glir i amlygu amrywiadau mewn perfformiad megis siartiau Rheoli Proses Ystadegol, neu ddull tebyg. |
| A4 | Adolygu argaeledd gwybodaeth feincnodi briodol i ymgorffori proses berthnasol ar gyfer meincnodi perfformiad fel y bo'n ddichonadwy. |

# Adroddiad manwl

## Mae gwybodaeth rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwaith craffu gan y Bwrdd a'i bwyllgorau, er bod rhywfaint o gyfle ar gyfer gwelliant pellach

### Mae'r drefn adrodd ar berfformiad yn dal i ddatblygu gyda rhai gwelliannau ers hydref 2018; fodd bynnag, mae cyfle ar gyfer gwelliant pellach

12 Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ar amrywiaeth eang o fesurau perfformiad gan gynnwys dangosyddion ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yn ogystal â dangosyddion sydd wedi'u halinio â'i chynlluniau strategol mewnol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd yn rheolaidd ar berfformiad ei gwasanaethau trwy ei Hadroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol (AAPhIM) a gyflwynir i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau sydd wedi'i gyflunio o'r newydd.[1]

13 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn adrodd ar ei pherfformiad yn erbyn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) trwy adroddiad chwarterol ar y CTCI a gyflwynir i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau sydd wedi'i gyflunio o'r newydd.

14 Fe geisiodd y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Pherfformiad adborth mewnol ar ei threfn adrodd ar berfformiad tuag at ddiwedd 2018 ac yn gynnar yn 2019. Wedyn fe gynhaliodd sesiwn wedi'i hwyluso gyda Chyfarwyddwyr Anweithredol ym mis Ionawr 2019 i ystyried gwelliannau i'r drefn adrodd. Roedd yr adborth a gafwyd yn cynnwys pwyntiau megis:

- yr angen am restr lai o ddangosyddion critigol;
- ar gyfer pob un o'r dangosyddion critigol hyn, roedd yn ofynnol dadansoddi'r data, ynghyd â rhoi disgrifiad eglur o'r camau gweithredu a oedd yn cael eu cymryd i barhau i wella perfformiad; ac
- ar gyfer yr holl ddangosyddion eraill y mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn atebol amdanynt, dylai data ddal i gael ei gynnwys mewn atodiadau, gyda chyfeiriadau drwy eithriad o bosibl.

15 Cafodd cynnwys a fformat AAPhIM yr Ymddiriedolaeth eu diwygio ym mis Ionawr 2019 ac eto ym mis Mawrth 2019 yn dilyn yr adborth hwn. Mae fformat a chynnwys yr adroddiad wedi parhau i newid ers cwblhau ein gwaith maes ym mis Mai 2019.

[1] Gweler paragraffau 38 a 39.


## Mae Adroddiad Perfformiad Integredig Misol diwygiedig yr Ymddiriedolaeth wedi gwella'i threfn adrodd ar berfformiad

16 Yn 2015 fe wnaethom ystyried pa mor effeithiol y mae cyrff y GIG yn adrodd ar eu perfformiad ar lefel Bwrdd. Fe wnaethom adolygu adroddiadau perfformiad pob corff iechyd yn erbyn casgliad presennol o egwyddorion a oedd yn deillio o **Ganllaw Arfer Da mewn Adrodd ar Berfformiad ar gyfer Byrddau'r GIG** gan y Gymdeithas Rheolaeth Ariannol mewn Gofal Iechyd (HFMA) a Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli (CIMA). Mae'r canllaw'n nodi egwyddorion adroddiadau da ar berfformiad, gan nodi y dylai adroddiad da ar berfformiad fod:

- Yn berthnasol
- Yn amserol
- Yn ddibynadwy
- Yn gynhwysfawr
- Yn integredig
- Yn gymaradwy (dros amser ac â thargedau)
- Yn eglur ac yn ddealladwy
- Yn gryno

17 Yn 2015 roedd yr Ymddiriedolaeth yn cymharu'n ffafriol â sefyllfa Cymru gyfan o ran arddangos yr egwyddorion hyn o fewn ei drefn adrodd ar berfformiad (Arddangosyn 3). Fe wnaeth ein hadroddiad amlygu nifer o gryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer gwella i'r Ymddiriedolaeth eu hystyried.

Arddangosyn 3: perfformiad cymharol trefniadau byrddau ar gyfer adrodd ar berfformiad; yr Ymddiriedolaeth a Chymru gyfan 2015




Ffynhonnell: Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Asesiad Strwythuredig 2015: Cymharu adroddiadau perfformiad i fyrddau: Pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG, cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2016. (Sylwer: Mae’r ‘sgoriau’ a nodir yn Arddangosyn 3 yn amrywio o ‘0’ i ‘8’ lle mae 8 yn dynodi’r perfformiad uchaf).

18 Fe wnaeth yr adolygiad hwn asesu Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol (AAPhIM) diwygiedig yr Ymddiriedolaeth yn erbyn yr un egwyddorion â’r rhai a gymhwyswyd yn 2015 ac roedd yn ceisio deall a oedd yr Ymddiriedolaeth wedi gweithredu ar y cyfleoedd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol. Fe wnaethom adolygu’r AAPhIM a gyflwynwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2019. Mae Arddangosyn 4 yn nodi ein canfyddiadau o’n hadroddiad blaenorol ynghyd â’n hasesiad o’r sefyllfa ar hyn o bryd.

Arddangosyn 4: Cymharu Adroddiadau Perfformiad rhwng 2015 a 2019

| 2015 | | 2019 |
|---|---|---|
| **Beth sy'n dda neu'n ymddangos i fod wedi gwella?** | **Beth allai fod yn well?** | **Y Sefyllfa ar Hyn o Bryd** |
| Mae'r adroddiad perfformiad yn rhannol integredig – mae'n cynnwys prif feysydd busnes yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys cyllid. | Byddai rhai rhannau o'r prif adroddiad perfformiad yn elwa o gydbwysedd gwell rhwng gwybodaeth feintiol a naratif esboniadol ategol. | Mae'r adroddiad perfformiad yn dal i fod yn rhannol integredig gydag adroddiad ar wahân ar gyfer perfformiad, y CTCI a Chyllid. Mae cyfle o hyd i gynnwys naratif mwy esboniadol. |
| Mae gan yr adroddiad perfformiad grynodeb byr sy'n tynnu sylw'r darllenydd. Mae'n cynnwys cerdyn sgorio i roi trosolwg lefel uchel. Mae naratif y crynodeb yn seiliedig ar adrodd ar eithriadau. | Byddai'r prif adroddiad perfformiad yn elwa o grynodebau adran neu gardiau sgorio. | Mae'r adroddiad perfformiad â fformat newydd yn cynnwys crynodebau o adrannau a chardiau sgorio. |
| Mae'r adroddiad perfformiad yn cysylltu i amcanion busnes yr Ymddiriedolaeth gan amlaf. | Mae'r adroddiad perfformiad yn cynnwys ychydig o feincnodi a rhagfynegi. | Nid yw'r adroddiad perfformiad yn cynnwys meincnodi. Cyfyngedig yw'r rhagfynegi o hyd. |
| Defnyddir siartiau a graffeg i ddangos perfformiad presennol a thueddiadau. | Gyda rhai o'r siartiau a'r graffiau adroddir ar berfformiad heb gyfeirio at darged gan wneud eu dehongli ar eu pen eu hunain yn anodd. | Mae siartiau a graffeg wedi'u cynnwys fel pecyn data ar wahân sy'n ategu'r prif adroddiad perfformiad. Mae targedau'n cael eu cynnwys bellach lle y bo'n briodol. |
| Mae'r adroddiad perfformiad yn defnyddio ychydig o godio lliw/ system RAG. | | Mae'r AAPhIM yn cynnwys codio lliw/sgoriau CAG lle y bo'n briodol. |

| 2015 | | 2019 |
|---|---|---|
| **Beth sy'n dda neu'n ymddangos i fod wedi gwella?** | **Beth allai fod yn well?** | **Y Sefyllfa ar Hyn o Bryd** |
| Mae'r prif adroddiad perfformiad yn defnyddio ystod o ddata ac yn seiliedig ar wybodaeth amserol. | Nid yw'r adran gyllid yn cysylltu'n benodol i amcanion yr Ymddiriedolaeth. | Mae'r prif adroddiad perfformiad yn dal i ddefnyddio amrywiaeth o ddata yn seiliedig ar wybodaeth sy'n amserol. |
| Mae'r adroddiad perfformiad yn nodi pwy sydd â chyfrifoldeb gweithredol am feysydd perfformiad allweddol. | Byddai'r mesurau gweithredu yn yr adroddiad perfformiad yn elwa o ddyrannu cyfrifoldebau'n ddiamwys. | Gallai manylion pwy sydd â chyfrifoldeb gweithredol gael eu hehangu i gynnwys pob maes perfformiad. |

Ffynhonnell: adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Asesiad Strwythuredig 2015, Cymharu adroddiadau perfformiad i Fyrddau: Pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG, Mehefin 2016.

## Mae adroddiadau allweddol yr Ymddiriedolaeth ar berfformiad bellach wedi'u hintegreiddio'n well, er bod cyfle o hyd i gryfhau'r cysylltiadau rhyngddynt

19 Canfu'r gwaith ar gyfer ein Hasesiad Strwythuredig 2018 fod gan yr Ymddiriedolaeth broses ar gyfer monitro'r modd y mae ei CTCI yn cael ei chyflawni. Canfu'r arolwg o aelodau'r Bwrdd ar gyfer ein Hasesiad Strwythuredig hefyd fod pob un o'r 12 aelod o'r Bwrdd (100%) a arolygwyd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod yr wybodaeth y maent yn ei chael yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt am ba mor dda y mae'r sefydliad yn perfformio mewn perthynas â'i CTCI. Mae hyn yn cymharu â sgôr o 90% ar gyfer Cymru gyfan. Fodd bynnag, roedd rhai o'r pryderon a fynegwyd wrthym yn ystod Asesiad Strwythuredig 2018 yn ymwneud ag anhawster gwahaniaethu rhwng yr uchelgeisiau ar gyfer perfformiad a nodir yn y CTCI o fewn yr AAPhIM.

20 Ym mis Ionawr 2019 fe wnaeth Cyfarwyddwyr Anweithredol yr Ymddiriedolaeth adolygu'r mesurau deilliant o fewn CTCI yr Ymddiriedolaeth. Cafodd y mesurau deilliant y dylid adrodd arnynt yn fisol ym marn yr Ymddiriedolaeth eu blaenoriaethu mewn rhestr o'r '10 uchaf' o blith y mesurau. Mae'r dangosfwrdd cysylltiedig sy'n nodi'r 10 mesur uchaf yma, gan gynnwys perfformiad cyfredol ar gyfer 2018-19, wedi'i gynnwys yn yr adroddiad AAPhIM. Cafodd y dangosfwrdd ei strwythuro'n unol â Fframwaith Strategol Hirdymor yr Ymddiriedolaeth[2] ac mae wedi'i fwriadu i wneud y cysylltiadau rhwng perfformiad a'r CTCI yn fwy eglur. Mae

[2] Fe gymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ei **Fframwaith Strategol Hirdymor: Gweledigaeth ar gyfer 2030**, ym mis Mawrth 2019. Mae'r fframwaith yn nodi gweledigaeth ac uchelgeisiau hirdymor yr Ymddiriedolaeth.

tudalen wedi'i neilltuo yn yr AAPhIM i bob un o'r '10 uchaf' o blith y dangosyddion misol.

21 Fodd bynnag, mae cyfle o hyd i fynd ati ymhellach i wella'r ffordd y mae'r AAPhIM a'r adroddiad ar y CTCI yn gweithio gyda'i gilydd i roi sicrwydd i'r Bwrdd. Canfuom nad yw'r Ymddiriedolaeth mynd ati'n gyson ar hyn o bryd i nodi a yw unrhyw faterion o ran perfformiad yn debygol o effeithio ar gyflawni'r CTCI neu, i'r gwrthwyneb, a yw unrhyw benderfyniadau ynglŷn â'r CTCI yn debygol o effeithio ar berfformiad neu ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft, gallai penderfyniadau a wneir i wella perfformiad gael effaith ariannol a fyddai'n effeithio ar sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ac, felly ar gyflawni ei CTCI.

## Mae adroddiad newydd yr Ymddiriedolaeth ar berfformiad bellach yn cynnwys dangosfyrddau a chardiau sgorio manwl sy'n cynnwys data amserol

22 Roedd fersiynau cynharach o'r AAPhIM (Cyfarfod Bwrdd 28 Mawrth 2019) yn cynnwys crynodeb un dudalen a oedd yn cynnwys dadansoddiad a darlun graffigol o'r sefyllfa ynghyd â chamau gwella. Er bod rhai o aelodau'r Bwrdd y siaradom ni gyda hwy o'r farn bod y crynodebau hyn yn ddefnyddiol, mae eraill wedi awgrymu bod y crynodeb yn rhy ddisgrifiadol, ac felly y gall fod cyfle i wneud crynodebau yn y dyfodol yn fwy cryno.

23 Caiff yr AAPhIM ei ategu hefyd gan ddangosfwrdd manwl sy'n darparu trosolwg lefel uchel o Fframwaith Cyflawni Perfformiad GIG Cymru. Mae dangosfyrddau ar wahân hefyd ar gyfer perfformiad a gweithgarwch gwasanaethau brys a difrys. Mae'r dangosfwrdd ar gyfer y Fframwaith Cyflawni yn darparu nifer o nodweddion defnyddiol, gan gynnwys:

- disgrifiad o'r amcan;
- targed;
- perfformiad hanesyddol;
- pa un a yw perfformiad wedi newid ers y cyfnod blaenorol; a
- sgôr CAG (Coch-Ambr-Gwyrdd) sy'n dynodi a yw'r lefel perfformiad a ddisgwylir yn cael ei chyflawni ai peidio.

24 Wedi'u hatodi wrth yr AAPhIM mae tri cherdyn sgorio (Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Meddygol Brys (EMS) a Gwasanaethau Cludo Cleifion Difrys (NEPTS)). Mae'r cardiau sgorio hyn yn nodi perfformiad yn erbyn metrigau allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i ddwyn yr Ymddiriedolaeth i gyfrif. Ar adeg ein hadolygiad, roedd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n diwygio'r cardiau sgorio i gynnwys targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20, Bwriadau Comisiynu a mesurau deilliant o'r CTCI. Mae hyn wedi'i fwriadu i ddarparu adroddiad mwy cyflawn ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn ei thargedau allweddol a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd.

25 Mae'r wybodaeth am berfformiad sydd wedi'i chynnwys mewn adroddiadau'n amserol. Er enghraifft, roedd yr AAPhIM a gyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2019 yn cynnwys data hyd at fis Ionawr 2019. Mae data a ddefnyddir

mewn adroddiadau'n cael ei wirio cyn eu cyhoeddi ac yn cael ei 'gymeradwyo' yn fewnol yn Nhîm Rheoli Gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Mae peth data, megis y Dangosyddion Ansawdd Ambiwlansys dan embargo gan Lywodraeth Cymru a gall hyn arwain wedyn at oedi er bod yr Ymddiriedolaeth yn cael gwybodaeth a gyhoeddir ymlaen llaw.

## Gellid gwella'r modd yr eir ati i ddadansoddi tueddiadau, a gallai adroddiadau roi dealltwriaeth well am yr hyn sydd wedi dylanwadu ar berfformiad

26 Un o wendidau'r AAPhIM yw nad yw'n manylu ar y ffactorau sydd wedi effeithio ar berfformiad. Er bod adroddiadau 'sy'n mynd at wraidd y mater' yn cael eu darparu o bryd i'w gilydd i roi esboniad mwy manwl o berfformiad mewn maes penodol, drwy eithriad yn unig y caiff y rhain eu llunio. Byddai cynnwys yr wybodaeth hon yn fwy cyson ar draws mesurau, lle y bo'n bosibl, yn gwella'r adroddiad ac yn darparu dealltwriaeth well am yr ysgogwyr allweddol sy'n effeithio ar berfformiad.

27 Mae perfformiad hanesyddol yn cael ei gynnwys yn yr AAPhIM. Mae atodiad pellach wrth yr AAPhIM yn nodi siartiau sy'n dangos perfformiad yn y ddwy flynedd flaenorol i gynorthwyo gyda thrafodaethau'r Bwrdd ynglŷn â thueddiadau a chymariaethau tymhorol. Fodd bynnag, mae rhai o aelodau'r Bwrdd wedi cwestiynu a yw'r data ar gyfer rhai dangosyddion yn arwyddocaol yn ystadegol gan nad oes digon o ddata hanesyddol. Hefyd, nid yw'r AAPhIM yn cynnwys rhagolygon i ragfynegi perfformiad yn y dyfodol ar hyn o bryd, er bod yr Ymddiriedolaeth wedi dynodi y gallai hyn newid mewn rhifynnau o'r adroddiad yn y dyfodol.

28 Deallwn fod yr Ymddiriedolaeth yn ystyried cyflwyno siartiau Rheoli Proses Ystadegol i amlygu amrywiad, yn enwedig ar gyfer y '10 uchaf' o blith y dangosyddion (ond nid dim ond y rheiny). Daeth y defnydd o siartiau Rheoli Proses Ystadegol fel ffordd o fesur a monitro perfformiad yn boblogaidd am y tro cyntaf yn y GIG dros 15 mlynedd yn ôl ac mae eu defnydd yn dal i gael ei hybu gan NHS Improvement a chyrff iechyd eraill yng Nghymru ac yn Lloegr heddiw.

29 Ceir dyhead ymhlith aelodau'r Bwrdd i newid o adroddiadau naratif i ddefnyddio graffiau a siartiau i 'adrodd y stori'. Byddai siartiau Rheoli Proses Ystadegol, neu dechnegau tebyg, o gymorth i gyflawni hyn. Pan gânt eu defnyddio i ddelweddu data, gellir defnyddio technegau Rheoli Proses Ystadegol i ddeall amrywiad mewn proses ac amlygu meysydd y byddai o fudd ymchwilio ymhellach iddynt.

30 Fodd bynnag, nid yw siartiau Rheoli Proses Ystadegol yn dynodi a yw proses yn gywir ynteu'n anghywir. Gallant fod yn ddefnyddiol i 'ddangos y ffordd' at gamau gweithredu pellach, os cânt eu dehongli'n gywir. Byddai angen i'r dewis posibl i gyflwyno a defnyddio siartiau Rheoli Proses Ystadegol yn adroddiadau perfformiad yr Ymddiriedolaeth gael ei asesu'n ofalus i ganfod a yw'r arbenigedd angenrheidiol ar gael yn yr Ymddiriedolaeth i lunio'r adroddiadau a bod aelodau'r Bwrdd yn cael yr hyfforddiant sy'n ofynnol i ddeall a dehongli'r siartiau i gynyddu eu gwerth i'r eithaf.

## Nid yw cynlluniau gweithredu ar gyfer adfer yn nodi uwch reolwr cyfrifol ac amserlen glir ar gyfer gwella

31 Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yr Ymddiriedolaeth sydd â phrif gyfrifoldeb am adrodd wrth Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar berfformiad, er bod nifer o Swyddogion Gweithredol eraill yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wybodaeth arall am berfformiad hefyd.

32 Mae AAPhIM yr Ymddiriedolaeth yn nodi'r targedau'n glir ac yn rhoi sgôr CAG i berfformiad yn erbyn y targedau hynny, yn enwedig y rhai sydd wedi'u categoreiddio fel y '10 uchaf' o'u plith. Mae hefyd yn rhoi arwydd o'r camau gwella sy'n ofynnol. Mae perchnogion gweithredol yn cael eu nodi ar gyfer prif fesurau/mesurau deilliant Map Strategaeth yr Ymddiriedolaeth (h.y. y cynllun ar gyfer cyflawni Fframwaith Strategol hirdymor yr Ymddiriedolaeth)[3] ac ar gyfer yr wyth thema flaenoriaeth sydd wedi'u cynnwys yn y CTCI. Fodd bynnag, nid yw'r AAPhIM yn nodi pa uwch reolwr sy'n gyfrifol am gymryd camau gweithredu mewn ymateb i faterion perfformiad, er enghraifft y '10 uchaf' o blith y targedau, a phryd y mae'n disgwyl i welliant gael ei gyflawni.

33 Er bod rhai o aelodau'r Bwrdd o bosibl yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am gymryd camau unioni mewn ymateb i faterion perfformiad, efallai na fydd rhai, yn enwedig Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd. Dylai'r Ymddiriedolaeth gynnwys uwch reolwr penodol ar yr adroddiadau un dudalen ar gyfer y '10 uchaf' o blith y dangosyddion ac ystyried cymhwyso hyn i'r holl ddangosyddion allweddol. Ar ben hynny, dylai'r Ymddiriedolaeth gynnwys taflwybr gwelliant yn ei AAPhIM fel bod y Bwrdd yn gallu monitro a chael sicrwydd bod cynnydd yn cael ei wneud.

## Oherwydd diffyg data cymaradwy, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn meincnodi ei pherfformiad yn rheolaidd

34 Canfuom nad yw'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati'n rheolaidd i feincnodi ei pherfformiad yn erbyn sefydliadau tebyg. Mae gwybodaeth feincnodi ar gael trwy gomisiynwyr yr Ymddiriedolaeth: y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC), sy'n cymharu perfformiad yr Ymddiriedolaeth ei hun yn ôl ardaloedd Byrddau Iechyd.

35 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cymryd rhan mewn peth meincnodi allanol ar faterion megis prynu cerbydau a salwch staff gyda gwasanaethau ambiwlans eraill, ond roedd yr Ymddiriedolaeth o'r farn mai gwerth cyfyngedig oedd i hyn. Cafwyd data meincnodi allanol gan Fforwm Cymdeithas y Prif Weithredwyr Ambiwlans yr ystyrir ei fod yn gyfle defnyddiol i rannu arfer da. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi comisiwn yn ddiweddar i ymgynghorwyr allanol gynnal adolygiad o'r galw am y Gwasanaeth Meddygol Brys a chapasiti'r gwasanaeth. Bydd yr adolygiad yn bwrw golwg ar effeithlonrwydd a pherfformiad y Gwasanaeth Meddygol Brys gan ddefnyddio data meincnodi sydd ar gael**.**

[3] Gweler troednodyn 2.

36 Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn y gallai wneud mwy i feincnodi, yn enwedig mewn perthynas ag effeithlonrwydd a chynhyrchiant ond mae'n bwysig bod data meincnodi'n gymaradwy. Mae aelodau o'r farn bod cyfle i ddefnyddio mwy o ddata meincnodi wrth adrodd ar berfformiad ond maent hefyd yn pwysleisio bod rhaid i ddata fod yn briodol, cael ei ddeall yn eglur a chael ei ddefnyddio i ysgogi gwelliant ac effeithlonrwydd mewn perfformiad.

## Mae trefniadau newydd ar gyfer adroddiadau a chyfarfodydd yn darparu gwybodaeth briodol ar gyfer y Bwrdd a'i bwyllgorau ac yn rhoi mwy o amser iddynt graffu ar berfformiad

37 Canfu ein Hasesiad Strwythuredig yn 2018 'er bod y Bwrdd yn cael ei gynnal yn effeithiol ar y cyfan, mae'r rheolaeth ar yr agenda, swmp yr wybodaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau, ac amlder y cyfarfodydd hynny yn golygu bod aelodau'n aml yn teimlo eu bod yn brin o amser'. Roedd aelodau hefyd o'r farn bod rhai o'r trafodaethau am berfformiad ar lefel y Bwrdd yn rhy fanwl ac y dylid ymdrin â hwy mewn mannau eraill megis cyfarfodydd pwyllgorau neu gyfarfodydd y Tîm Rheoli Gweithredol.

38 Ers y gwaith maes ar gyfer ein Hasesiad Strwythuredig yn 2018, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno newidiadau i'r trefniadau adrodd ar berfformiad, gan gynnwys strwythur ei phwyllgorau ac amseriad ac amlder cyfarfodydd ei Bwrdd.

### Mae newidiadau diweddar i amlder cyfarfodydd y Bwrdd ac i'r strwythur pwyllgorau wedi darparu mwy o amser i graffu ar wybodaeth am berfformiad a'i herio

39 Canfu'r arolwg o aelodau'r Bwrdd ar gyfer ein Hasesiad Strwythuredig yn 2018 fod pedwar o'r 12 aelod (33%) a ymatebodd o'r farn bod wastad neu gan amlaf ddigon o amser i ystyried pob eitem ar yr agenda. Mae hyn yn cymharu â sgôr ar gyfer Cymru gyfan o 71%. Roedd y canfyddiadau hyn yn awgrymu nad oedd wastad digon o amser i drafod a chraffu ar wybodaeth am berfformiad. Fe wnaeth sylwadau a ddarparwyd gan aelodau'r Bwrdd bwysleisio'r angen hwn ymhellach gyda sylwadau megis yr angen am 'agendâu llai', cyfarfodydd Bwrdd mwy mynych; a digon o amser ar gyfer eitemau allweddol ar yr agenda.

40 Yn ystod 2017-18, fe barhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu ymarfer mapio llywodraethu, a oedd yn edrych ar y berthynas rhwng cyfarfodydd amryw grwpiau a phwyllgorau, trefniadau adrodd a llifoedd gwybodaeth rhwng y grwpiau, y pwyllgorau a'r Bwrdd. Yn flaenorol, roedd gan y Bwrdd dri phrif bwyllgor:

- y Pwyllgor Archwilio;
- y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau; a hefyd
- y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion (a adwaenir hefyd fel QuESt).

41 Mae'r prif bwyllgorau wedi cael eu hailgyflunio gyda'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau'n cael ei ddisodli gan Bwyllgor Pobl a Diwylliant a Phwyllgor Cyllid a Pherfformiad.

42 Hefyd, mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth bellach yn cwrdd bob deufis yn hytrach nag yn chwarterol gyda chyfarfodydd yn para am ddiwrnod llawn yn hytrach na hanner diwrnod fel yn flaenorol. Mae disgwyl i'r newidiadau hyn roi mwy o amser i aelodau graffu ar faterion allweddol, gan gynnwys perfformiad yr Ymddiriedolaeth.

## Ceir tystiolaeth o graffu cadarn ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau; fodd bynnag, mae cyfle i gynyddu'r effaith y mae craffu'n ei chael ar berfformiad

43 Canfu ein harolwg o aelodau'r Bwrdd ar gyfer Asesiad Strwythuredig 2018 fel a ganlyn:

- pan ofynnwyd i ba raddau yr oedd aelodau'n teimlo'n hyderus yn eu gallu i graffu a gofyn cwestiynau'n effeithiol, roedd 12 o'r 12 o ymatebwyr (100%) yn teimlo'n hyderus bob amser neu gan amlaf. Mae hyn yn cymharu â sgôr ar gyfer Cymru gyfan o 92%.
- pan ofynnwyd pa mor aml yr oedd aelodau'r Bwrdd yn teimlo bod perthynas adeiladol yng nghyfarfodydd y Bwrdd rhwng swyddogion gweithredol ac aelodau annibynnol, eto roedd 12 o'r 12 o ymatebwyr (100%) yn teimlo bod hyn yn wir bob amser neu gan mwyaf. Mae hyn yn cymharu â sgôr ar gyfer Cymru gyfan o 97%.

44 Yn ystod ein hadolygiad canfuom her ddigonol gan Gyfarwyddwyr Anweithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac yn enwedig yng nghyfarfodydd pwyllgorau. Nid yw'r naill na'r llall yn cael eu hystyried yn amgylchedd ysgafn i swyddogion Gweithredol sy'n ymwybodol bod angen lefel uchel o baratoi ar gyfer cyfarfodydd. Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn sôn am barodrwydd i herio ac mae swyddogion gweithredol yn teimlo bod lefel yr her yn gadarnhaol ac yn iach.

45 Gall yr Ymddiriedolaeth gyfeirio at enghreifftiau lle mae craffu yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau wedi arwain at welliannau mewn perfformiad ac o ran darparu gwasanaethau. Un enghraifft yw trafodaeth ynglŷn ag achos lle gwrthodwyd mynediad at ambiwlans i glaf â chi tywys. Fe arweiniodd trafodaeth yn y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion ym mis Tachwedd 2018 at gyflwyno polisi a gweithdrefnau ar gyfer cleifion â nam ar eu clyw trwy Safon Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Gleifion â Nam ar y Synhwyrau.

46 Fodd bynnag, fe allai fod mwy o her ar rai materion perfformiad. Un enghraifft yw perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn y targed ymateb 'ambr' lle mae perfformiad wedi bod yn wael am gyhyd fel ei fod bellach bron yn cael ei dderbyn fel y norm. Mynegwyd hyn wrthym mewn cyfweliadau gan bod barn nad yw her wastad yn arwain at weithredu o bosibl. Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu'r broses herio a sut y caiff materion eu huwchgyfeirio at y Bwrdd. Mae rôl cadeiryddion pwyllgorau'n allweddol a gallai adroddiadau ysgrifenedig byr gan bwyllgorau (yn

hytrach na dim ond y cofnodion) fod o gymorth i ddwyn gwelliannau yn y maes hwn. Byddai darparu adroddiad byr sy'n nodi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y pwyllgor yn darparu sicrwydd bod camau unioni ar waith. Byddai'r adroddiadau'n helpu'r Ymddiriedolaeth i fonitro cynnydd hefyd.

## Mae gwelliannau i fformat adroddiadau ar berfformiad yn debygol o gryfhau gwaith craffu gan aelodau'r Bwrdd, er y dylai'r Ymddiriedolaeth geisio gwerthuso effaith newidiadau diweddar

47 Canfu ein harolwg o aelodau'r Bwrdd ar gyfer Asesiad Strwythuredig 2018 fel a ganlyn:

- pan ofynnwyd i ba raddau y mae aelodau'r Bwrdd yn hyderus bod yr wybodaeth y mae'r Bwrdd yn ei chael yn ddigonol i'r Bwrdd gael sicrwydd ynghylch risg a pherfformiad sefydliadol, roedd 10 o'r 12 o ymatebwyr (83%) yn hyderus iawn neu'n hyderus bod hyn yn wir ac roedd y ddau a oedd yn weddill yn 'ansicr'. Mae hyn yn cymharu â sgôr o 80% ar gyfer Cymru gyfan o ran bod yn hyderus; a
- phan ofynnwyd pa mor aml y mae aelodau'r Bwrdd yn teimlo bod y Bwrdd yn gallu gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar yr wybodaeth y mae'n ei chael, dywedodd 100% o'r ymatebwyr bod hyn yn wir. Mae hyn yn cymharu â sgôr ar gyfer Cymru gyfan o 95%.

48 Fodd bynnag, dywedodd aelodau wrthym eu bod yn teimlo bod angen mwy o gydbwysedd rhwng y sefyllfa yr adroddir arni a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i reoli materion.

49 Er gwaethaf pryderon a nodwyd yn gynharach ynglŷn â maint adroddiadau, roedd aelodau'n teimlo, ar y cyfan, eu bod yn gallu cael sicrwydd ynghylch materion allweddol. Roedd maint AAPhIM blaenorol yn golygu nad oedd Cyfarwyddwyr Anweithredol wastad yn gwybod ble i edrych yn yr amryw adroddiadau i gael y sicrwydd hwn. Dylai'r AAPhIM sy'n cynnwys crynodeb gweithredol a chardiau sgorio helpu aelodau'r Bwrdd i ganolbwyntio ar feysydd lle nad yw perfformiad ar y trywydd cywir a lle mae angen camau gweithredu i wella perfformiad. Mae aelodau'r Bwrdd yn dweud eu bod yn cael amrywiaeth o ddata cyn cyfarfodydd y Bwrdd fel eu bod yn gallu ystyried yr wybodaeth a pharatoi unrhyw her.

50 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried ymweld â gwasanaethau ambiwlans eraill i chwilio am arfer gorau o ran llunio adroddiadau. Yn dilyn y gwelliannau diweddar i'r drefn llunio adroddiadau, ac unrhyw gamau gweithredu dilynol a gymerwyd mewn ymateb i'n hadolygiad, dylai'r Ymddiriedolaeth werthuso a yw'r fformat diwygiedig ar gyfer adroddiadau a'r trefniadau diwygiedig ar gyfer llunio adroddiadau'n ateb y gofynion o ran gwybodaeth ac yn darparu'r sicrwydd angenrheidiol. Ym mis Ionawr 2019, yn dilyn y sesiwn wedi'i hwyluso ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol yr Ymddiriedolaeth, fe benderfynodd yr Ymddiriedolaeth fynd ati'n ffurfiol i adolygu'r Fframwaith Cynllunio a Pherfformiad i ystyried newidiadau diweddar i adroddiadau perfformiad ac amlder cyfarfodydd. Bydd y fframwaith diwygiedig yn ystyried

ffactorau megis amseroldeb y drefn llunio adroddiadau; maint y data yr adroddir arno a sut y caiff ei gyflwyno. Mae’r Ymddiriedolaeth yn disgwyl cwblhau’r gwaith hwn yn ystod 2019-20.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru: Adolygiad o Wybodaeth Rheoli Perfformiad

Arddangosyn 5: ymateb y rheolwyr

| Argymhelliad | Deilliant/budd bwriadedig | Wedi'i dderbyn (Do/ Naddo) | Blaenori-aeth Uchel? (Ie/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 Mynd ati ymhellach i gryfhau eglurder a gwerth Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol (AAPhIM) yr Ymddiriedolaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried:<br>• lle y bo'n bosibl, darparu disgrifiad o'r materion sy'n effeithio ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth; | Dealltwriaeth well am y rhesymau dros y sefyllfa o ran perfformiad. | Do | Ie | Mae'r 10 dangosydd uchaf yn yr adroddiad ansawdd a pherfformiad misol bellach yn cynnwys adran sy'n rhoi dadansoddiad. Bydd prif gorff yr adroddiad yn cael ei ddiwygio i gynnwys 'dadansoddiad cyffredinol'. | O adroddiad Medi 2019 ymlaen | Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Comisiynu a Pherfformiad |

| Argymhelliad | Deilliant/budd bwriadedig | Wedi'i dderbyn (Do/ Naddo) | Blaenori-aeth Uchel? (Ie/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • cynnwys rhagolygon mewn adroddiadau perfformiad i ragfynegi perfformiad a deilliannau yn y dyfodol; ac | | | | Cefnogaeth gref i'r argymhelliad hwn. Mae YGAC yn gweithio ar hyn o bryd gydag Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd, Rhaglen Gydweithredol Cymru ar Fodelu, ORH ac Optima.<br><br>Bydd ar YGAC angen rhagolygon pum mlynedd a rhagolwg ar gyfer wythnos nesaf. Rhaglen o ragolygon (modelu perfformiad i gael ei gytuno a'i gyflawni fel yn y rhaglen). | Rhaglen i gael ei chytuno erbyn 31 Hydref 2019 | |
| • enwi uwch reolwr/rheolwr arweiniol â chyfrifoldeb am y '10 uchaf' o blith y targedau, ac o bosibl ar draws pob dangosydd perfformiad. | | | | Cytuno. | O adroddiad Medi 2019 ymlaen. | |

| Argymhelliad | | Deilliant/budd bwriadedig | Wedi'i dderbyn (Do/ Naddo) | Blaenori-aeth Uchel? (Ie/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | Datblygu adroddiad cryno byr ar drafodion y pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar gyfer y Bwrdd a hwnnw'n amlygu, drwy eithriad, y materion/risgiau allweddol lle mae perfformiad a chyflawni yn y cwestiwn. | Monitro a sicrwydd gwell yn erbyn y perfformiad a ragfynegir yn ystod y flwyddyn. | Do | Ie | Cytuno. Yn hytrach nag adroddiad ar wahân rydym yn bwriadu cynnwys gwybodaeth o'r pwyllgorau (dylai hynny gynnwys pob un o'r tri ac nid dim ond Cyllid a Pherfformiad) fel rhan o'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad ar gyfer y Bwrdd. Mae hyn yn ddibynnol ar amserlen pwyllgorau/y Bwrdd yn galluogi hyn i ddigwydd. | O bwyllgorau Medi 2019 ymlaen. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Comisiynu a Pherfformiad |

| Argymhelliad | | Deilliant/budd bwriadedig | Wedi'i dderbyn (Do/ Naddo) | Blaenoriaeth Uchel? (Ie/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A3 | Datblygu dull i fynd ati'n glir i amlygu amrywiadau mewn perfformiad megis siartiau Rheoli Proses Ystadegol, neu ddull tebyg. | Ei gwneud yn haws adnabod achosion amrywiad mewn perfformiad. | Do | Ie | Mae'r Tîm Comisiynu a Pherfformiad wedi caffael meddalwedd rheoli proses ystadegol yn ddiweddar a bydd un aelod o'r tîm yn cael hyfforddant ym mis Hydref. Bydd angen cyfnod o amser i ddysgu'r dull hwn cyn adrodd wrth y pwyllgor a'r Bwrdd, ond ceir cefnogaeth gref i'r argymhelliad hwn. | O ddechrau blwyddyn galendr 2020 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Comisiynu a Pherfformiad |
| A4 | Adolygu argaeledd gwybodaeth feincnodi briodol i ymgorffori proses berthnasol ar gyfer meincnodi perfformiad fel y bo'n ddichonadwy. | Gellir defnyddio wybodaeth gymharol briodol i ysgogi gwelliannau mewn perfformiad ac arbedion effeithlonrwydd. | Do | Ie | Mae'r Adolygiad Galw a Chapasiti o'r Gwasanaeth Meddygol Brys sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn darparu llawer o feincnodau ar gyfer pum cam llwybr gofal ambiwlans y Gwasanaeth Meddygol Brys. Ceir cyfleoedd eraill ar gyfer meincnodi hefyd; fodd bynnag, gellir defnyddio llawer o ymdrech yn ceisio dwyn cymariaethau felly mae angen taro cydbwysedd rhwng yr amser a dreulir ar hyn a gwerth gwneud hynny. | 31 Mawrth 2020 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Comisiynu a Pherfformiad |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru